Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r  Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 14 Medi 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712624 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 22 MEDI 2017** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 30 Mehefin2017 (copi wedi'i amgáu).

**5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 13 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**6 HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD** (Tudalennau 27 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu).

**7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi wedi'i amgáu).

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 24 Tachwedd 2017

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff "[Nodwch Rif]" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**10 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 33 - 34)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne Mellor

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Gwener, 30 Mehefin 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Julia Hughes, Ann Mellor ac Ian Trigger (Cadeirydd), ynghyd â'r Cynghorwyr Paul Penlington ac Andrew Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE)

---

**Teyrnged i'r Cynghorydd Cymuned David Jones**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd David Jones a oedd wedi gwasanaethu fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor am lawer o flynyddoedd. Roedd y Cynghorydd Jones wedi bod yn gynrychiolydd cefnogol a pharod ei gymwynas a oedd bob amser yn cyfrannu'n ystyrlon i'r cyfarfodydd. Roedd y Pwyllgor yn drist i'w weld yn gadael ac fe wnaethant ddiolch iddo am ei waith rhagorol. Cyflwynwyd taleb i'r Cynghorydd Jones fel arwydd o werthfawrogiad y Pwyllgor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelod annibynnol Paula White.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad personol ag eitem 6 fel aelod o Gyngor Tref Prestatyn.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau diwethaf a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017 gerbron y Pwyllgor i'w gwirio o ran:

**Cywirdeb –**

Tudalen 5 – eitem 1 – Mae Mrs P White yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor, yn hytrach na chynghorydd fel y nodir yn y cofnodion.

Tudalen 8 – eitem 5 – Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd gan yr Aelod Annibynnol Julia Hughes yn ymdrin â 37 o wefannau'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, yn hytrach nag 8 fel y nodir.

Tudalen 9 – eitem 8 – Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau fod *pecyn e-ddysgu* hefyd wedi cael ei gynhyrchu i gyd-fynd â'r pecyn hyfforddiant.

**Materion yn codi –**

Tudalen 5 – eitem 4 – Argaeledd hyfforddiant cyfryngu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Dywedodd y Swyddog Monitro (SM) wrth aelodau'r Pwyllgor fod hyfforddiant cyfryngu wedi ei godi yng nghyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru lle cytunwyd y dylid rhoi hyfforddiant i'r Aelodau Annibynnol. Byddai'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn rhoi diwrnod o hyfforddiant yng ngogledd Cymru er mwyn cynorthwyo i ddatrys cwynion. Byddai'r SM yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl i'r hyfforddiant gael ei drefnu.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfryngu yn bwysig iawn, yn enwedig gan fod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn llai parod i ymyrryd mewn cwynion lefel isel – mae'r prawf budd cyhoeddus yn cydnabod y rhoddir blaenoriaeth i gwynion yn ymwneud â'r GIG sydd yn sefyllfaoedd 'bywyd a marwolaeth' posibl.

Tudalen 7 – eitem 5 – Hygyrchedd Gwybodaeth o Adroddiadau Adolygiadau Blynyddol y Cynghorau Dinas/Tref a Chymuned. Cadarnhaodd y SM fod yr adroddiad wedi ei ddosbarthu yn unol â chais y Pwyllgor.

Tudalen 9 – eitem 8 – Roedd y SM wedi darparu rhestr o ddyddiadau hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer Clercod a Chynghorwyr Cymuned/Sir i aelodau'r Pwyllgor.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod 13 Clerc bellach wedi cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant. Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd fod y rhain yn Glercod newydd ac y byddent hefyd yn gallu dod i hyfforddiant yr aelodau.

Tudalen 10 - eitem 10 - Cadarnhaodd y SM fod yr Awdurdod yn gweithio gyda chydweithwyr o awdurdodau lleol eraill fel y cytunwyd, mewn perthynas â'r Protocol Hunanreoleiddio.

Tudalen 11 – eitem 12 – Gofynnodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes am ailddosbarthu'r e-bost i'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned er mwyn eu hatgoffa y gallai aelod o'r Pwyllgor Safonau ymweld â nhw **(GW i weithredu).**

***PENDERFYNWYD –*** *ar ôl cynnwys y newidiadau uchod y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.*

**Newid i'r rhaglen**

Ar y pwynt hwn, cytunwyd i newid trefn y rhaglen er mwyn galluogi'r Cynghorydd Richard Mainon, siaradwr gwadd, i sôn am y cais am ollyngiad gan Gyngor Tref Bodelwyddan.

## 5 CAIS AM OLLYNGIAD GAN GYNGOR TREF BODELWYDDAN

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynghorydd Richard Mainon, aelod o'r cyngor sir a Chynghorydd Tref Bodelwyddan a gofynnodd iddo roi'r cefndir i'r cais am ollyngiad gan aelodau Cyngor Tref Bodelwyddan.

Esboniodd y Cynghorydd Mainon fod canolfan gymunedol y pentref wedi ei rhedeg am 42 blynedd gan Gymdeithas Cymuned Bodelwyddan (BCA), ond bod y Gymdeithas bellach wedi ei dirwyn i ben a'r ganolfan gymuned mewn perygl o gael ei chau.

Yng nghyfarfod cyntaf Cyngor y Dref ar 24 Mai yn dilyn Etholiadau'r Awdurdod Lleol, lle'r roedd llawer o bobl yn bresennol, cytunwyd i gynnal cyfarfod ar wahân i benderfynu beth i'w wneud ac i ystyried sefydlu cymdeithas newydd.

Ar 30 Mai, ffurfiwyd cymdeithas newydd o'r enw "Cyfeillion Bodelwyddan". Gan mai 3 aelod yn unig sydd ar Gyngor Tref Bodelwyddan ac un Cynghorydd Sir yn gweithredu dan adran 91 Deddf Llywodraeth Leol roedd yn rhaid i'r holl gynghorwyr fod ar bwyllgor y gymdeithas newydd. Oherwydd hyn roeddynt yn gwneud y cais am ollyngiad.

Esboniodd y Swyddog Monitro (SM), er mwyn cydymffurfio â chod ymddygiad yr Aelodau, byddai'n rhaid i'r aelodau lenwi ffurflen datgan cysylltiad wrth ymdrin â materion ar y rhaglen yn ymwneud â Chyfeillion Bodelwyddan. Byddai'r rhain yn bennaf yn faterion o gysylltiad personol na fyddai'n effeithio ar eu hawl i bleidleisio. Fodd bynnag, byddai'r grŵp newydd yn chwilio am gymorth ariannol gan y Cyngor Tref. Felly byddai'r cysylltiad yn rhagfarnol ac ni fyddai gan y cynghorwyr bleidlais os na fyddai'r gollyngiad yn cael ei ganiatáu.

Dywedodd y SM wrth y Pwyllgor y gallai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eithriad neu ollyngiad yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol 2000. Cyfeiriodd sylw'r aelodau at y rheoliad yn atodiad 2 a'r rheoliadau a oedd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn – Rheoliad 2(a), (d) a (h).

Er y gall y Pwyllgor Safonau ddewis un sail ar gyfer caniatáu gollyngiad, nid oes rheidrwydd arnynt i'w ganiatáu. Er bod llythyr Clerc Cyngor Tref Bodelwyddan yn gwneud cais am ollyngiad am gyfnod o 12 mis gallai'r Pwyllgor ddewis ei ganiatáu am unrhyw gyfnod, os oedd yn dymuno ei ganiatáu o gwbl. Ymhellach, gallai'r Pwyllgor osod cyfyngiad ariannol a byddai'n rhaid gofyn am gymeradwyaeth bellach ar gyfer hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch a oedd y gollyngiad yn cael ei roi i gynghorwyr a enwyd neu i'r corff, h.y. Cyfeillion Bodelwyddan.

Atebodd y SM y byddai'r cynghorwyr yn cael eu rhestru. Petai cynghorydd newydd yn cael ei gyfethol yna ni fyddai'n elwa ar y gollyngiad a byddai'n rhaid iddo wneud cais am ollyngiad personol. Wrth i'r gymdeithas gymunedol ddatblygu a denu mwy o wirfoddolwyr, tybir y bydd y cynghorwyr yn ymbellhau oddi wrthi. Sicrhaodd y SM fod y math hwn o gais yn gyffredin yng Nghymru a'i fod yn cael ei ystyried er budd cyhoeddus.

Ymhelaethodd y Cynghorydd Mainon ar gyflwr y cyfleusterau cymunedol ac amcangyfrifwyd y byddai angen £42,000 i wella cyflwr yr adeilad. Byddai'r gwaith atgyweirio yn cynnwys: dau foeler newydd; adnewyddu'r neuadd; uwchraddio'r gegin; rhwystr llawr gwlyb a chyfleusterau newid ar gyfer chwaraewyr pêl-droed. Rhagwelwyd na fyddai'r costau yn fwy na £60,000. Roedd gan y Cyngor Tref adnoddau digonol i dalu am y swm hwn. Ar ôl i'r neuadd gael ei gwella, disgwylir y bydd yn haws denu aelodau'r gymuned i'w defnyddio. Gallai'r gwaith ddechrau'n syth petai'r cais am ollyngiad yn cael ei gymeradwyo.

Trafododd y Pwyllgor fanteision ymestyn cyfyngiadau amser y gollyngiad o 12 mis i 18 mis. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd petai unrhyw waith ar y prosiect yn cymryd mwy o amser, roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn bod cyfyngiadau amser o gymorth i ganolbwyntio meddyliau pobl ac y gallai'r Gymdeithas gyflwyno cais arall yn y dyfodol petai angen.

Pan ofynnwyd a fyddai'r Cyfeillion yn gwneud cais am arian loteri i gefnogi'r prosiect yn y dyfodol, dywedodd y Cynghorydd Mainon y byddai hyn yn digwydd a'i fod yn meddwl y byddai'n bosibl cael 50% ychwanegol ar ffurf grantiau. Fodd bynnag, y flaenoriaeth yw sefydlu'r Gymdeithas yn gyfreithiol ac adnewyddu'r adeilad erbyn y gaeaf.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau'r Pwyllgor fod ganddynt bŵer cyfreithiol dan adran 81(4) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001/2279 yn yr achosion a ganlyn –

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo gysylltiad sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, ar y camau a ganlyn:*

*(a) Bod y Pwyllgor Safonau yn caniatáu'r cais am ollyngiad â chyfyngiadau cronnus o £60,000 am gyfnod o 12 mis a*

*(b) Byddai'r SM yn ysgrifennu at Glerc Cyngor Tref Bodelwyddan ac yn dosbarthu'r llythyr ymhlith aelodau'r Pwyllgor (**GW i weithredu**).*

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cafodd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau ei chyflwyno i gael ei hystyried a chytunodd yr aelodau i gynnwys yr ychwanegiad a ganlyn:-

- Cynnwys adroddiad ar bresenoldeb yn yr hyfforddiant a gaiff ei ddarparu ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

***PENDERFYNWYD** cytuno ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar gynnwys yr uchod.*

**7 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD**

Fe wnaeth y Swyddog Monitro (SM) atgoffa'r Pwyllgor fod yr Ombwdsmon yn llunio adroddiad chwarterol sy'n crynhoi'r holl achosion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod dan sylw.

Tynnodd y SM sylw at enghraifft o Gyngor Tref Prestatyn (adran 4.9 o'r adroddiad). Ar y pwynt hwn, roedd y Cynghorydd Paul Penlington yn teimlo y gallai'r cysylltiad personol ymylu ar fod yn rhagfarnol a gofynnodd am gael ei esgusodi ar gyfer gweddill y drafodaeth.

Aeth y SM yn ei flaen i ddisgrifio ffeithiau'r achos a chasgliadau'r Ombwdsmon, sef gan mai gofyn cwestiynau yn unig ynghylch mater cynllunio yr oedd y Cynghorydd Tref ac ni allai ddylanwadu ar y penderfyniad yna nad oedd angen cymryd unrhyw gam pellach. Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon o'r farn y dylai'r Cynghorydd ystyried ei weithredoedd a chael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

***PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r wybodaeth yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.*

**8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Roedd yr aelod Annibynnol Julia Hughes yn ei chael yn anodd i ganfod ar ba ddiwrnod yn union yr oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Yn ei barn hi, roedd hyn yn dangos pa mor anodd yw hi i aelodau'r cyhoedd wybod beth sy'n digwydd yn eu cymuned pan gyhoeddir gwybodaeth anghywir ar wefannau cynghorau cymuned / tref neu ddinas.

Roedd yr aelod Annibynnol Anne Mellor (AM) wedi bod yng nghyfarfod Cyngor Tref Tremeirchion. Cafodd groeso cynnes gan y clerc newydd. Roedd y Cynghorydd Sir hefyd yn bresennol. Dywedodd AM fod y cyfarfod wedi rhedeg yn llyfn iawn a bod pawb yn ymddwyn yn barchus iawn. Roedd y cyfarfod yn llawn gwybodaeth ac wedi cynnwys cyflwyniad gan Heddlu Gogledd Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r presenoldeb a diweddaru'r adroddiad presenoldeb i adlewyrchu hyn. (**GW i weithredu**)*

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD**

Esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) fod Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd wedi ei ohirio tan gyfarfod y Cyngor ym mis Medi oherwydd rhaglenni mawr cyfarfodydd mis Mai a mis Gorffennaf. Roedd adroddiad drafft y DSM wedi ei drafod yn helaeth yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD****:*

*(a) nodi newid dyddiad cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'r Cyngor, ac*
*(b) anfon y copi diweddaraf o'r adroddiad at y Cadeirydd (**LJ i weithredu**)*

**10 DIGWYDDIADAU HYFFORDDI AELODAU SYDD AR Y GWEILL**

Trefnwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer cynghorau dinas, tref a chymuned ar y dyddiadau a ganlyn:

- Dydd Mercher, 5 Gorffennaf yn yr Hwb, Dinbych, i ddechrau am 2:00pm a
- Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Dwy sesiwn yn dechrau am 2:00pm a 6:00pm

Roedd digwyddiad arall gyda'r nos wedi ei drefnu ar gyfer Cynghorwyr Sir ym mis Medi.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Safonau i ddod i unrhyw un o'r digwyddiadau hyfforddi.

***PENDERFYNWYD****:*

*(a) Bod y Pwyllgor Safonau yn nodi amserlen y digwyddiadau hyfforddi a*
*(b) Bod y SM yn dod ag adroddiad presenoldeb gerbron cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi (**GW i weithredu**)*

**FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn cynnwys 6 chyngor lleol a Phwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri. Gwahoddir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion

pob awdurdod i drafod eu diddordebau cyffredin a bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r cyfarfodydd yn achlysurol.

Roedd Ceredigion a Phowys ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwneud cais i ymuno â'r fforwm a chytunwyd â hyn ar yr amod na fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal y tu allan i'r ardal dim ond pan fyddai holl ganolfannau Gogledd Cymru wedi eu defnyddio.

Roedd y Fforwm yn ymchwilio i ffyrdd o gefnogi cynghorau cymuned, tref a dinas mewn achosion o anghydfod rhwng aelodau, ac roedd hyn yn cynnwys ystyried darparu pecynnau hyfforddiant a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Trefnwyd bod cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal yn Wrecsam.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn yr adroddiad llafar ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ac y dylid nodi hynny.*

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr Aelodau fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer 10:00am ddydd Gwener, 22 Medi 2017, yn ystafell gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## 13 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er mwyn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ers 1 Ebrill 2014.

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn yn y gorffennol am gael gwybodaeth reolaidd am nifer y cwynion a gyflwynwyd i OGCC. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r cwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2014.

Cyflwynodd y SM ddiweddariad ar yr un gŵyn a oedd yn parhau, ac esboniodd wrth y pwyllgor bod yr achos penodol hwn wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd blaenorol.

Hefyd, rhoddodd y SM rywfaint o gyd-destun ac esboniad o gefndir y gŵyn a pham na chafodd unrhyw gam ei gymryd. Roedd yn bosibl y byddai diweddariad yn cael ei gynnwys yn rhifyn nesaf Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.

***PENDERFYNWYD*** *–bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22ain Medi 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Hysbysu'r Pwyllgor o rifyn diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n eu hymchwilio o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Cynhyrchir Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â'r Cod.

4.4 Yn ogystal, bydd y Llyfr Achosion yn cynorthwyo Pwyllgorau Safonau'r awdurdod lleol drwy roi mynediad iddynt i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau ac yn cael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion, y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

4.5 Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 13 y Llyfr Achosion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2017 i Orffennaf 2017. Bydd yr Aelodau'n nodi bod 12 crynodeb yn y rhifyn hwn o'r Llyfr Achosion, yr oedd 2 ohonynt yn ymwneud ag atgyfeiriad i Bwyllgor Safonau ac roedd un wedi'i atgyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru. Yn gyffredinol, cafwyd 7 achos yn ymwneud â honiadau ynghylch dwyn anfri ar yr awdurdod neu swydd, 3 mewn perthynas â chydraddoldeb a pharch, a 2 mewn perthynas a datgelu neu gofrestru diddordebau.

4.6 O'r 9 achos nad oeddynt wedi arwain at eu hatgyfeirio at Bwyllgor Safonau neu'r Panel Dyfarnu, yn achos 5 ohonynt, cafwyd nad oedd tystiolaeth o dorri'r Cod. Roedd bob un o'r 5 achos yn ymwneud â honiadau yn erbyn gwahanol aelodau o Gyngor Sir Powys, o ran eu bod wedi dwyn anfri ar y Cyngor neu swydd Cynghorydd. Ymddengys fod pob un o'r honiadau hyn yn deillio o'r hyn a welir i fod yr un mater. Ym mhob un o'r achosion, canfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd dan sylw wedi gweithredu'n ddidwyll ac nad oedd wedi torri'r Cod.

4.7 Cafwyd pedwar achos lle daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen gweithredu pellach. Roedd y rhain yn cynnwys achos o ymddygiad amharchus yr oedd yr aelod dan sylw wedi ymddiheuro yn ei gylch, ynghyd ag achos yn ymwneud ag aelod a oedd wedi defnyddio iaith amharchus ar dudalen cyfryngau cymdeithasol ond a oedd wedi methu cael ei ailethol. Roedd dau o'r achosion hyn yn ymwneud ag aelodau a oedd wedi cymryd rhan mewn busnes yr oedd ganddynt gysylltiad ag o a fyddai'n rhagfarnu. Mewn un o'r achosion hyn, nid oedd yr aelod wedi cael gollyngiad ac roedd wedi parhau i gymryd rhan. Ystyriodd yr Ombwdsman nad oedd rhan yr aelod wedi effeithio canlyniad y cyfarfod ac felly nad oedd er budd y cyhoedd i fwrw ymlaen â'r mater. Roedd yr ail achos yn ymwneud ag aelod a oedd wedi cael gollyngiad ar yr amod y gallai siarad ond nid pleidleisio ar fater. Aeth yr aelod ymlaen i siarad a phleidleisio. Canfu'r Ombwdsman fod diystyrwch bwriadol y Pwyllgor Safonau yn destun pryder ond, gan fod yr aelod wedi ymddiheuro, ystyriodd nad oedd er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater ymhellach. Fodd bynnag, hysbyswyd yr aelod y byddai'r ymddygiad hwn yn cael ei ystyried mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol.

4.8 O ran y 2 achos a atgyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau, atgyfeiriwyd y ddau at Bwyllgor Safonau Powys ac roeddynt yn ymwneud â 2 aelod yr oedd y ddau ohonynt wedi cael eu herlyn gan y Cyngor mewn perthynas â thorri Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007. O ganlyniad i'w heuogfarnau, ystyriwyd fod y ddau Gynghorydd wedi dwyn anfri ar eu hawdurdod ac fe gawsant eu hatal dros dro am bythefnos a phedair wythnos yn y drefn honno.

4.9 Roedd yr un achos a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru yn y cyfnod hwn yn ymwneud ag aelod o Gyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â honiad fod aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i swyddog, a’i fod wedi dwyn anfri ar yr awdurdod a’i swydd. Roedd yr honiad yn ymwneud â sylw a wnaed y tu allan i wrandawiad llys yn ymwneud ag un o etholwyr y cynghorydd. Daeth y Panel i’r casgliad, gan na wnaed y sylw yn gyhoeddus, nad oedd yn dwyn anfri ar yr awdurdod ond ei fod yn arwain at fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth a’i fod yn achos o fwlio. Cafodd y cynghorydd ei atal dros dro am gyfnod o fis.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Coflyfr
Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 13 Gorffennaf

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dim tystiolaeth o dor-amod | 4 |
| Nid oes angen gweithredu | 6 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 7 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 8 |
| Mwy o Wybodaeth | 9 |


## Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Rhagfyr 2016.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r cod

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201601829 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2017

Cafwyd cwyn fod Cynghorydd B o Gyngor Sir Powys o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau (yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod), wrth weithredu fel Deiliad y Portffolio Addysg, drwy beidio â chymryd camau digonol i ymdrin â'r ffaith fod Ysgol Uwchradd ("yr Ysgol") yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i'r dalgylch, gan dorri Cynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion ("y Cynllun").

Canfu'r Ombwdsmon fod Cynghorydd B wedi gweithredu'n ddidwyll wrth wahodd yr Ysgol i gyflwyno achos dros ddiwygio'r Cynllun, â'r bwriad y byddai'r Cynllun wedyn naill ai'n cael ei ddiwygio neu ei orfodi. Yn anffodus, methodd yr Ysgol â darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Er y gellid beirniadu Cynghorydd B am beidio â mynd ar drywydd y mater, roedd yna amgylchiadau lliniarol i esbonio pam na allai hi wneud hynny'n bersonol. Yn unol â hynny, canfu'r Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth fod Cynghorydd B wedi torri'r Cod.

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201602895 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2017

Cafwyd cwyn fod Cynghorydd E o Gyngor Sir Powys o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau (yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod), wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd ("yr Ysgol"), drwy beidio â chymryd camau digonol i ymdrin â'r ffaith fod yr Ysgol yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i'r dalgylch, gan dorri Cynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion ("y Cynllun").

Canfu'r Ombwdsmon fod Cynghorydd E wedi bod yn gweithredu gan gredu'n ddiffuant fod y Cyngor naill ai'n gwybod nad oedd yr Ysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun, neu y dylai fod wedi gwybod ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo, ac nad oedd yn cymryd unrhyw gamau. Gallai'r Ombwdsmon ddeall, dan yr amgylchiadau hynny, pam y daeth Cynghorydd E i'r farn (yn gam neu'n gymwys) fod y Cyngor yn cymeradwyo'r hyn yr oedd yr Ysgol yn ei wneud. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod Cynghorydd E wedi gweithredu'n ddidwyll ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo ac nad oedd unrhyw dystiolaeth felly ei fod wedi torri'r Cod.

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201601962 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2017

Cafwyd cwyn fod y cyn Gynghorydd A o Gyngor Sir Powys o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau (yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod), wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd ("yr Ysgol"), drwy beidio â chymryd camau digonol i ymdrin â'r ffaith fod yr Ysgol yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i'r dalgylch, gan dorri Cynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion ("y Cynllun").

Canfu'r Ombwdsmon fod y cyn Gynghorydd A wedi bod yn gweithredu gan gredu'n ddiffuant fod y Cyngor naill ai'n gwybod nad oedd yr Ysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun, neu y dylai fod wedi gwybod ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo, ac nad oedd yn cymryd unrhyw gamau. Gallai'r Ombwdsmon ddeall, dan yr amgylchiadau hynny, pam y daeth y cyn Gynghorydd A i'r farn (yn gam neu'n gymwys) fod y Cyngor yn cymeradwyo'r hyn yr oedd yr Ysgol yn ei wneud. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y cyn Gynghorydd A wedi gweithredu'n ddidwyll ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo ac nad oedd unrhyw dystiolaeth felly ei fod wedi torri'r Cod.

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201601967 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2017

Cafwyd cwyn fod Cynghorydd C o Gyngor Sir Powys o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau (yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod), wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd ("yr Ysgol"), drwy beidio â chymryd camau digonol i ymdrin â'r ffaith fod yr Ysgol yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i'r dalgylch, gan dorri Cynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion ("y Cynllun").

Canfu'r Ombwdsmon fod Cynghorydd C wedi bod yn gweithredu gan gredu'n ddiffuant fod y Cyngor naill ai'n gwybod nad oedd yr Ysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun, neu y dylai fod wedi gwybod ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo, ac nad oedd yn cymryd unrhyw gamau. Gallai'r Ombwdsmon ddeall, dan yr amgylchiadau hynny, pam y daeth Cynghorydd C i'r farn (yn gam neu'n gymwys) fod y Cyngor yn cymeradwyo'r hyn yr oedd yr Ysgol yn ei wneud. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod Cynghorydd C wedi gweithredu'n ddidwyll ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo ac nad oedd unrhyw dystiolaeth felly ei fod wedi torri'r Cod.

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201601968 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mehefin 2017

Cafwyd cwyn fod Cynghorydd D o Gyngor Sir Powys o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau (yn ymwneud â dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod), wrth weithredu fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd ("yr Ysgol"), drwy beidio â chymryd camau digonol i ymdrin â'r ffaith fod yr Ysgol yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y tu allan i'r dalgylch, gan dorri Cynllun y Cyngor ar gyfer Ariannu Ysgolion ("y Cynllun").

Canfu'r Ombwdsmon fod Cynghorydd D wedi bod yn gweithredu gan gredu'n ddiffuant fod y Cyngor naill ai'n gwybod nad oedd yr Ysgol yn cydymffurfio â'r Cynllun, neu y dylai fod wedi gwybod ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo, ac nad oedd yn cymryd unrhyw gamau. Gallai'r Ombwdsmon ddeall, dan yr amgylchiadau hynny, pam y daeth Cynghorydd D i'r farn (yn gam neu'n gymwys) fod y Cyngor yn cymeradwyo'r hyn yr oedd yr Ysgol yn ei wneud. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod Cynghorydd D wedi gweithredu'n ddidwyll ar sail y wybodaeth oedd ar gael iddo ac nad oedd unrhyw dystiolaeth felly ei fod wedi torri'r Cod.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Rhif Achos 201603705 – Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Ebrill 2017

Ystyriodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig ("y Cod") yn sgil y modd y bu i'r Cynghorydd ymdrin ag aelod o'r cyhoedd oedd yn cyflawni ei dyletswyddau cyflogaeth. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon  a oedd y Cynghorydd wedi dwyn anfri arni hi ei hun, ei swydd a'r Cyngor yn sgil ei hagwedd.

Canfu'r Ombwdsmon fod gweithredoedd y Cynghorydd yn torri'r cod, mewn perthynas â'r gŵyn fod y Cynghorydd wedi dwyn anfri arni hi ei hun yn sgil ei gweithredoedd. Fodd bynnag, gan fod y Cynghorydd wedi ymddiheuro am ei gweithredoedd, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn fod yr amgylchiadau yn galw am unrhyw gamau pellach. Gan fod y Cynghorydd yn gweithredu mewn capasiti cwbl bersonol ac na chafodd y Cyngor ei gynnwys mewn unrhyw fodd, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn fod y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd nac ar y Cyngor.

Casgliad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y mater yr ymchwiliwyd iddo.

### Cyngor Sir Powys – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif Achos 201505874 - Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Ebrill 2017

Ystyriodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Sir Powys ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol oedd yn rhagfarnu mewn amrywiol gyfarfodydd Cyngor, pan drafodwyd Rhaglen Foderneiddio Ysgolion, a bod y Cynghorydd wedi parhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn dilyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor i beidio â rhoi goddefeb iddo wneud hynny.

Canfu'r Ombwdsmon fod gweithredoedd y Cynghorydd yn torri'r Cod, ond gan na wnaeth ei gyfraniad i'r cyfarfodydd y bu'n bresennol ynddynt newid canlyniad trafodaeth y Cyngor yn sylweddol, nid ydoedd er budd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach.

Casgliad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau ynghylch y mater yr ymchwiliwyd iddo.

### Cyngor Tref Saltney – Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif Achos 201606253 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Mai 2017

Ystyriodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Tref Saltney ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi pleidleisio ar fater yr oedd ganddi fudd personol oedd yn rhagfarnu ynddo heb gael goddefeb briodol gan Bwyllgor Safonau y Cyngor Sir. Roedd yr aelod dan sylw wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau oedd yn caniatáu iddi siarad ar y mater, ond nid oedd yr oddefeb honno yn caniatáu iddi bleidleisio.

Ystyriodd yr Ombwdsmon gofnodion y cyfarfod perthnasol a chanfod eu bod yn nodi bod y Cynghorydd wedi pleidleisio. Ystyriodd hefyd ohebiaeth gan y Cynghorydd lle roedd hi'n cydnabod na ddylai hi fod wedi bwrw pleidlais yn y cyfarfod. Roedd y Cynghorydd hefyd wedi ymddiheuro'n ffurfiol am y cyfeiliornad hwn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Derbyniodd yr Ombwdsmon yr esboniad a'r ymddiheuriad a roddwyd gan y Cynghorydd, ac er ei fod yn cydnabod bod y ffaith i'r Cynghorydd ddiystyru'r Pwyllgor Safonau yn fwriadol yn peri pryder, roedd o'r farn mai cyfyngedig oedd canlyniadau gweithredoedd y Cynghorydd ac nad ydoedd er budd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach.

Casgliad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. Fodd bynnag, cynghorwyd y Cynghorydd y byddid yn ystyried y mater hwn pe derbynnid unrhyw gŵynion tebyg yn y dyfodol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy ddefnyddio iaith ymfflamychol ac amharchus ar dudalen gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod yr ymchwiliad cafwyd etholiad ac ni chafodd yr aelod dan sylw ei ailethol. Penderfynodd yr Ombwdsmon nad ydoedd er budd y cyhoedd i gymryd camau pellach ar y materion yr ymchwiliwyd iddynt.

## Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

### Cyngor Sir Powys - Uniondeb
### Rhif Achos 201504317 – Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2016

Cyfeiriodd Cynghorydd X o Gyngor Sir Powys ei hun at yr Ombwdsmon ar gyngor Swyddog Monitro'r Cyngor ar y sail ei bod yn bosibl ei fod wedi torri Cod Ymddygiad yr aelodau.

Adroddodd Cynghorydd X, sy'n rheoli fferm da byw, ei bod yn bosibl ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod pan gafodd ei erlyn gan Gyngor Sir Powys dan Reoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 (am fethu â chadw cofnodion cywir am wartheg) a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2014 (am fethu â gwaredu carcasau anifeiliaid yn brydlon). Plediodd y Cynghorydd X yn euog i chwe chyhuddiad a chafodd euogfarn droseddol.

Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth gan Gyngor Sir Powys a chafodd Cynghorydd X ei gyfweld yn ffurfiol. Canfu'r Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod Cynghorydd X o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad a chyfeiriodd y mater i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ei ystyried.

Ar 13 Mawrth 2017, daeth Pwyllgor Safonau'r Cyngor i'r casgliad fod Cynghorydd X wedi torri Cod Ymddygiad yr aelodau. Cafodd ei atal rhag bod yn Gynghorydd am bythefnos ac argymhellwyd ei fod yn cael hyfforddiant pellach ar God Ymddygiad y Cyngor.

Ceir penderfyniad y Pwyllgor Safonau yn y fan yma.

### Cyngor Sir Powys – Uniondeb
### Rhif Achos 201504433 – Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2016

Cyfeiriodd Cynghorydd Y o Gyngor Sir Powys ei hun at yr Ombwdsmon ar gyngor Swyddog Monitro'r Cyngor ar y sail ei bod yn bosibl ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Adroddodd Cynghorydd Y, sy'n rheoli fferm da byw, ei bod yn bosibl ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod pan gafodd ei erlyn gan Gyngor Sir Powys dan Reoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 am fethu â chadw cofnodion cywir am wartheg. Plediodd y Cynghorydd Y yn euog i wyth cyhuddiad a chafodd euogfarn droseddol.

Cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth gan Gyngor Sir Powys a chafodd Cynghorydd Y ei gyfweld yn ffurfiol. Canfu'r Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod Cynghorydd Y o bosibl wedi torri'r Cod Ymddygiad a chyfeiriodd y mater i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ei ystyried.

Ar 15 Mawrth 2017, daeth Pwyllgor Safonau'r Cyngor i'r casgliad fod Cynghorydd Y wedi torri Cod Ymddygiad yr aelodau. Cafodd ei atal rhag bod yn Gynghorydd am bedair wythnos ac argymhellwyd ei fod yn cael hyfforddiant pellach ar God Ymddygiad y Cyngor.
Ceir penderfyniad y Pwyllgor Safonau yn y fan yma.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

### Cyngor Caerdydd – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch
### Rhif Achos 201502858 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym Tachwedd 2016

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn gan Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd ("y Cyngor") ar ran aelod o Gyngor Caerdydd. Dywedodd y Swyddog Monitro fod aelod arall o'r Cyngor ("y Cynghorydd") wedi dwyn anfri ar y Cyngor yn sgil y modd y bu iddo ymddwyn yn dilyn gwrandawiad llys yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd ("y Llys") ar 23 Gorffennaf 2015. Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod").

Canolbwynt yr ymchwiliad oedd a oedd sylw honedig a wnaed gan y Cynghorydd ynghylch ailstrwythuro yn y Cyngor wedi'i gyfeirio tuag at un o swyddogion y Cyngor mewn modd bygythiol. Mewn cyfweliad, derbyniodd y Cynghorydd ei fod wedi gwneud y sylw, ond dywedodd fod y sylw wedi'i gyfeirio tuag at un o'i etholwyr yr oedd yn ei gynrychioli yn y gwrandawiad Llys. Yr oedd yn derbyn bod eraill wedi clywed y sylw.

Penderfynodd Cyfarwyddwr Ymchwiliadau yr Ombwdsmon gyfeirio adroddiad yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel") oherwydd bod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu nad oedd y Cynghorydd wedi dangos parch tuag at swyddog y Cyngor ac ystyriaeth o'r swyddog a bod hynny'n torri'r Cod. Yr oedd o'r farn hefyd, os oedd y Panel yn fodlon bod sylw'r Cynghorydd gyfystyr ag ymddygiad bygythiol tuag at y swyddog Cyngor, bod ei ymddygiad hefyd yn awgrymu ei fod wedi torri'r Cod.

Penderfynodd y Panel nad oedd y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar swydd Cynghorydd nac ar y Cyngor, gan na ddigwyddodd ei ymddygiad mewn rhan gyhoeddus o'r Llys ac mai dim ond ychydig o bobl a fu'n dyst iddo. Penderfynodd y Panel fod y Cynghorydd wedi methu â dangos parch tuag at y swyddog Cyngor ac ystyriaeth o'r swyddog, a'i fod wedi ymddwyn yn fwlïaidd tuag at y swyddog Cyngor.

Daeth y Panel i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac y dylid ei atal fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o fis neu am weddill ei gyfnod yn y swydd, os oedd y cyfnod hwnnw'n fyrrach na mis.

Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma.

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.John@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Safonau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 22 Medi 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams, Swyddog Monitro

**Teitl:** **Darparu Hyfforddiant Cod Ymddygiad**

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad sydd wedi cael eu darparu ers yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r sesiynau hyfforddiant sydd wedi cael eu darparu ers yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai a phresenoldeb cynghorwyr Sir a Thref, Dinas a Chymuned.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod aelodau'n ystyried y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad ac ystyried pa ddigwyddiadau hyfforddi pellach, os o gwbl, sy'n ofynnol.

**4. Manylion yr adroddiad**

Ar ôl cael eu hethol, rhaid i bob aelod etholedig arwyddo addewid cyn iddynt ddechrau yn eu swydd y byddant yn cadw at delerau'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

Mae'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Sir yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y cod ym mhob tymor Cyngor.

Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddiant gyntaf i Gynghorwyr Sir ar 11 Mai ac roedd 31 o'r 47 Cynghorydd Sir yn bresennol. Daeth un o'r Cynghorwyr Sir a oedd yn methu â mynychu'r sesiwn honno i un o'r sesiynau diweddarach a gynhaliwyd i Gynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned. Bydd sesiwn hyfforddiant bellach yn cael ei chynnal gyda'r nos ar 12 Hydref i roi cyfle i Gynghorwyr Sir a oedd yn methu â bod yn bresennol ar 11 Mai.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant ar 20 Mehefin i Glercod Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned ac roedd 8 o glercod yn bresennol.

Trefnwyd nifer o sesiynau wedyn i aelodau Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned. Cynhaliwyd 5 sesiwn i gyd, 2 yn Ninbych, 2 yn Rhuthun ac 1 yn y Rhyl. Cynhaliwyd rhai o'r sesiynau hyn yn ystod y dydd ac eraill gyda'r nos.

Mynychodd cyfanswm o 78 o Gynghorwyr y 5 sesiwn yn ogystal â 2 aelod o'r Pwyllgor Safonau. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan y mynychwyr yn gadarnhaol iawn. Atodir crynodeb o'r rheiny a fynychodd yn ôl Cyngor yn Atodiad 1.

Gofynnodd nifer fach o Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned a fyddai modd i hyfforddiant gael ei ddarparu iddynt yn eu Cynghorau. Yr ymateb i hyn oedd y byddem yn aros i weld faint o aelodau a fyddai'n llwyddo i fynychu'r 5 sesiwn a drefnwyd o flaen llaw cyn ystyried trefniadau mwy unigol. Efallai y byddwn yn ailedrych ar hyn yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Byddai modd darparu sesiynau byrrach sy'n canolbwyntio mwy ar rannau penodol o'r Cod Ymddygiad, yn dibynnu ar anghenion Cynghorau unigol yn hytrach na'r sesiynau llawn sydd wedi bod yn cael eu darparu hyd yma.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan staff sy'n cael eu hariannu drwy'r cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno newid neu gynnig a fyddai'n gofyn am asesiad o'r fath.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau eraill wedi'u cynnal

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os na fydd Aelodau'n cael yr hyfforddiant priodol, mae risg y gallant dorri'r Cod Ymddygiad yn anfwriadol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 8.6.5 o gyfansoddiad y Cyngor

**Atodiad 1**

| **Cyngor** | **Cyfanswm yn bresennol** |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Aberchwiler | 3 |
| Betws Gwerful Goch | 1 |
| Cyngor Tref Corwen | 2 |
| Cyngor Tref Dinbych | 10 |
| Cyngor Cymuned Diserth | 2 |
| Cyngor Cymuned Henllan | 3 |
| Cyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl | 9 |
| Cyngor Cymuned Llandegla | 6 |
| Cyngor Cymuned Llanfair | 6 |
| Cyngor Cymuned Llanferres | 3 |
| Cyngor Tref Llangollen | 6 |
| Cyngor Tref Llangollen | 2 |
| Cyngor Cymuned Llanrhaeadr | 1 |
| Cyngor Tref Prestatyn | 2 |
| Cyngor Tref Rhuddlan | 3 |
| Cyngor Tref y Rhyl | 6 |
| Cyngor Tref Rhuthun | 13 |
| Pwyllgor Safonau | 2 |
| | |
| | **80** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

***SYLWER BOD Y RHAGLEN I'W DOSBARTHU 1 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD***

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| **24 Tachwedd 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| | | |
| **02 Mawrth 2018** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |

Updated 17/03/2017 - SJ

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag